



## DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

<b>Teitl y Swydd</b>	Rheolwr Prosiect, EIDC
<b>Lleoliad</b>	Bae Caerdydd
<b>Yn gyfrifol i'r</b>	Rheolwr Rhaglen, EIDC
<b>Band Cyflog</b>	4B
<b>Cyflog</b>	£35,000 - £40,000
<b>Cyfnod</b>	Mae'r penodiad yn dibynnu ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru.

### PRIF BWRPAS Y SWYDD:

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithredu rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a'u teuluoedd ledled y wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a nodi sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a lles. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle sy'n cynnig dewis ac arloesedd ym maes iechyd, gofal a lles.

Cydweithrediad rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw Ecosystem Iechyd Digidol Cymru (EIDC), sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion digidol arloesol i dargedu gwelliannau posibl yn y meysydd canlynol:

- Ansawdd iechyd cleifion a dinasyddion;
- Effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y system; ac
- Amodau gwaith gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r rhaglen, a ariennir drwy Gronfa Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru, yn rhoi mynediad i ddatblygwyr atebion digidol at systemau GIG Cymru; yn dod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned iechyd digidol at ei gilydd i fynd i'r afael â rhwystrau a heriau i fabwysiadu a chyflwyno atebion o'r fath; yn cysylltu prosiectau â phartneriaid a ffynonellau cymorth ynghyd ag arddangos arferion gorau, treialu systemau a dulliau gweithredu newydd a rhannu gwybodaeth ledled Cymru drwy ddigwyddiadau a marchnata penodol.

Gan adrodd yn ôl i Reolwr Rhaglen EIDC, mae rôl Rheolwr Prosiect EIDC yn un hollbwysig o ran cyflawni rhaglen EIDC yn llwyddiannus. Mae'r rôl yn ganolog i ddatblygu a chyflawni prosiectau sy'n dwyn ynghyd diwydiant, y GIG a'r byd academiaidd i gyflymu'r broses o fabwysiadu technoleg gofal iechyd digidol. Bydd Rheolwr Prosiect EIDC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector er mwyn deall anghenion sydd heb eu diwallu, canfod atebion ymarferol a dod â'r holl rhanddeiliaid a phenderfynwyr perthnasol at ei gilydd i greu newid.

Bydd Rheolwr y Prosiect yn sicrhau bod prosiectau arloesi gofal iechyd digidol yn cael eu cyflawni ac yn rhannu gwerthoedd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o ran tegwch, urddas a pharch. Bydd yn gweithio i adeiladu ar lwyddiannau'r Hwb a sicrhau bod ei weledigaeth uchelgeisiol yn dod yn realiti.

Oherwydd bod hon yn rôl newydd, bydd cyfrifoldebau a dyletswyddau penodol y swydd yn datblygu'n organig yn y tymor byr. Bydd Rheolwr Prosiect EIDC a deiliad y swydd yn cytuno ar ddisgrifiad swydd terfynol ar adeg briodol.

Bydd llwyddiant y rôl yn cael ei asesu yn erbyn amcanion unigol.

#### **PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol â phartneriaid yn y rhaglen EIDC, a datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sydd gan bartneriaid i'w gynnig ledled y rhaglen, a sut gall y themâu hyn ddarparu atebion o fewn cwmplas y rhaglen.
- Datblygu a meithrin perthnasoedd â chwmnïau gofal iechyd digidol, a phartneriaid academiaidd a chlinigol, gan ddangos ymdrech i ymchwilio i atebion arloesol o ran technoleg, systemau a phrosesau sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol, a rhoi'r atebion hynny ar waith.
- Bod yn gyfrifol am weithgareddau rheoli prosiect, gan gynnwys yr isod:
  - Cynllunio prosiectau
  - Monitro ac adrodd ar berfformiad o'i gymharu â'r holl elfennau allweddol sydd i'w cyflawni, risgiau, cyfleoedd a heriau
  - Cydymffurfiaid y cwmni e.e. rheoli gwybodaeth a chofnodion
  - Cydymffurfiaid y rhaglen e.e. tystiolaeth o hawliadau, rhoi gwybod am berfformiad
  - Caffael a rheoli contractwyr/cyflenwyr
  - Adolygu polisiau a phrosesau'n rheolaidd
  - Adolygu a gwella gweithrediadau a phrosesau yn barhaus
- Cydymffurfio â gofynion monitro, adrodd, casglu tystiolaeth a chadw cofnodion ac amserlenni ar gyfer rhaglenni.
- Llunio a defnyddio systemau Hwb Gwyddorau Iechyd Cymru ac EIDC i gofnodi, monitro a rhoi adroddiadau ar weithgarwch o ran cyflawni.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid EIDC i hyrwyddo'r rhaglen, sy'n ymgorffori gweithgarwch ymgysylltu tîm ehangach Hwb Gwyddorau Iechyd Cymru a phartneriaid y rhaglen – er enghraifft, mynd i

gynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau ynddynt.

- Sefydlu a chynnal rhwydwaith o randdeiliaid amrywiol sy'n cwmpasu meysydd diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol, y byd academaidd a gwasanaethau cymorth perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, i gasglu'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rhaglen a phrosiectau EIDC.
- Gweithio gyda Rheolwr Rhaglen EIDC i ddatblygu cyfres o brosiectau EIDC, sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol heb eu diwallu a/neu sy'n cyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau gofal iechyd digidol.
- Gweithio gyda'r tîm Datblygu Cynigion i gefnogi'r gwaith o reoli prosiectau a datblygu ceisiadau am gyllid.
- Gweithio gyda Swyddog Gweithredol y Rhaglen a'r tîm Marchnata, Cyfathrebu a Digwyddiadau i ddatblygu cyfathrebiadau a digwyddiadau sy'n creu cyfleoedd ac yn hybu llwyddiannau.
- Croesawu ac ymweld â phobl a/neu sefydliadau sy'n dymuno rhyngweithio â'r rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys teithio i sefydliadau ledled Cymru o bryd i'w gilydd, a'r tu allan i Gymru o bosib.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a nodau'r Cwmni.
- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## MANYLEB Y PERSON

NODWEDDION	HANFODOL	DYMUNOL
<b>GWYBODAETH</b>	Egwyddorion rheoli prosiect	Dealltwriaeth o'r sector gwyddorau iechyd a bywyd, a datblygiadau digidol a syniadau newydd yn arbennig
		Dealltwriaeth o strwythurau a phrosesau o fewn y GIG neu mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru
		Dealltwriaeth o amgylcheddau a phrosesau arloesi neu ddatblygu cynnyrch
<b>PROFIAD</b>	Datblygiadau technoleg neu iechyd digidol	Profiad o gyflawni prosiectau'n llwyddiannus ar ran llywodraeth ranbarthol neu'r llywodraeth genedlaethol
	Profiad o reoli prosiectau	Profiad o sefydlu a rheoli systemau cofnodi prosiect er mwyn iddynt ddiwallu anghenion y tîm a'r

		cwsmer a bodloni unrhyw ofynion archwilio
	Profiad o reoli ac ymgysylltu â nifer o randdeiliaid o amryfal sectorau er mwyn cydweithio i gyflawni nodau ar y cyd	
	Cyflwyno gwybodaeth gymhleth yn glir, yn gryno ac yn gywir wrth fynychu cyfarfodydd, rhoi cyflwyniadau neu wrth ryngweithio â rhanddeiliaid	Digon o brofiad yn y sector gwyddorau bywyd, arloesi iechyd, ymchwil a datblygu i fod yn gredadwy o safbwynt amrywiaeth eang o randdeiliaid ym maes gwyddoniaeth, arloesi, iechyd, gofal a lles.
	Gallu gweithio tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol a'u cyflawni	
<b>SGILIAU A GALLU</b>	Sgiliau datblygu perthnasoedd rhagorol	
	Meddwl yn ddadansoddol a strategol; gallu cymhathu, symleiddio, cyfleu a dehongli deallusrwydd wrth ddylunio prosiect	
	Hyderus a phendant gyda sgiliau dylanwadu a negodi.	
	Hunanfeirniadol, er mwyn gwella atebion a phrosesau yn barhaus	
	Gallu rheoli amryfal brosiectau, ffrydiau gwaith a thasgau	
	Sgiliau amlwg o ran trefnu a rheoli prosiectau	
	Sgiliau cyflwyno ardderchog	
	Rhagweithiol a llawn cymhelliant i lwyddo	

## GOFYNION ERAILL

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch datgelu a gwahardd.
- Yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a chynyddu ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, aillbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.



## JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION

<b>Job Title</b>	Project Manager, DHEW
<b>Location</b>	Cardiff Bay
<b>Responsible to</b>	Programme Manager, DHEW
<b>Salary Band</b>	4B
<b>Salary</b>	£35,000 - £40,000
<b>Term</b>	Appointment is contingent upon receipt of funding from Welsh Government in relation to delivery of the Digital Health Ecosystem Wales programme.

### MAIN PURPOSE OF ROLE:

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovative solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

Digital Health Ecosystem Wales is a collaboration between Life Sciences Hub Wales and the NHS Wales Informatics Service (NWIS) which supports the development of innovative digital solutions targeting potential improvements in:

- The quality of health of patients and citizens;
- Efficiency and sustainability of the system; and
- The working conditions of health and social care professionals.

Funded through the Welsh Government's Digital Priorities Fund, the programme provides developers of digital solutions access to NHS Wales systems; convenes stakeholders across the digital health community to tackle barriers and challenges to adoption and rollout; connect projects with partners and sources of support; and showcases best practice, pilots new approaches and systems, and shares information across Wales through specific marketing and events.

Reporting to the Programme Manager DHEW, the Project Manager DHEW is a crucial role in the successful delivery of the DHEW programme. The role is central to the development and delivery of projects bringing together industry, NHS and academia to accelerate the adoption of digital healthcare technology. The Project Manager DHEW will engage with stakeholders across the sector to understand unmet needs, identify practical solutions and bring together all the relevant stakeholders and decision makers to effect change.

The Project Manager will ensure delivery of digital healthcare innovation projects; share LSHW values of fairness, dignity and respect and will work to build upon LSHW achievements and ensure it's ambitious vision becomes a reality.

As a new role, the specific duties and responsibilities will develop organically in the short term. The Programme Manager DHEW and the post holder will agree a final job description at an appropriate time.

The success of the role will be assessed against individual objectives.

#### **MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

- Establish and maintain effective working relationships with partners in the DHEW programme, developing a comprehensive understanding of the programme-wide offering from partners and how these themes can provide solutions within the programme scope.
- Build and nurture relationships with digital healthcare companies, clinical and academic partners showing endeavour for exploring and implementing innovative solutions in technology, systems and processes that help address unmet health or social care needs.
- Be responsible for project management activities including:
  - Project planning
  - Monitoring and reporting performance against all key deliverables, risks, opportunities and challenges
  - Company compliance e.g information and record management
  - Programme compliance e.g evidencing claims, reporting performance
  - Procurement and managing contractors/suppliers
  - Regular review of policies and processes
  - Continuous review and improvement of operations and processes
- Comply with programme monitoring, reporting, evidence gathering and record keeping requirements and timescale.
- Develop and utilise LSHW and DHEW systems to capture, monitor and report delivery activity.
- Support the delivery of the DHEW stakeholder engagement and communications plan to promote the programme, that incorporates engagement activity of the wider LSHW team and programme partners – for example attending and presenting at conferences, events and meetings.

- Establish and retain a diverse stakeholder network across industry, health, social care, academia and relevant private and public sector support services to convene the knowledge, expertise and skills required for the DHEW programme and DHEW projects.
- Work with the Programme Manager, DHEW to develop a pipeline of DHEW projects, tackling unmet health and social care needs and/or accelerating the adoption of digital healthcare technologies.
- Working with the Bid Development team, support the project management and development of funding bids.
- Work with the Programme Executive, and Marketing, Communications & Events team to develop communications and events which generate opportunities and promote successes.
- Visit and host people and/or organisations that wish to interact with the programme. This will involve, at times, travel to premises of organisations across Wales and outside of Wales.
- Promote and support the achievement of the Company's mission, vision and goals.
- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the LSHW's code of conduct.

## PERSONAL SPECIFICATION

ATTRIBUTES	ESSENTIAL	DESIRABLE
<b>KNOWLEDGE</b>	Principles of project management	Appreciation of the health and life sciences sector, particularly digital developments and emerging ideas
		Understanding of structures and processes within NHS or social care in Wales
		Understanding of product development or innovation processes and environments
<b>EXPERIENCE</b>	Digital health or technology development	Experience of successful delivery of projects for regional or national government
	Project management experience	Experience of setting up and managing project record systems so that they meet the needs of the team, the customer, and any audit requirements



	Experience of engaging and managing multiple stakeholders from multiple sectors to work together to achieve joint aims	
	Presenting complex information clearly, succinctly and accurately when attending meetings, giving presentations or interacting with stakeholders	Sufficient experience within the life sciences sector, health innovation, research and development to be credible with a wide range of stakeholders in the field of science, innovation, health, care and well-being
	Working to and meeting key performance indicators	
<b>SKILLS &amp; ABILITIES</b>	Exceptional relationship-building skills	
	Analytic and strategic thinker; able to assimilate, simplify, articulate and translate intelligence into project design	
	Confident, assertive, with influencing and negotiation skills	
	Self-critical, with a view to always improving solutions and processes	
	Able to manage multiple projects, workstreams and tasks	
	Demonstrable project management and organisational skills	
	Excellent presentation	
	Proactive and highly motivated to succeed	

## OTHER REQUIREMENTS

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.